Trydan Gwyrdd Cymru

**Ynni i ffynnu.** **Power to prosper.**



# **Gwefr** – Fferm Wynt Carreg Wen

## Yn hydref 2025 cynhaliwyd ein rownd gyntaf o ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer Fferm Wynt Carreg Wen.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i fynychu digwyddiadau, gweld yr arddangosfa rithwir, siarad â thîm y prosiect neu rannu adborth. Mae eich mewnbwn parhaus yn rhan werthfawr o lunio'r prosiect hwn wrth iddo ddatblygu.

Yn ystod yr ymgynghoriad hwn roedden ni eisiau darparu gwybodaeth glir a hygyrch am y cynnig yn y cam cynnar hwn a darparu cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl gymryd rhan.

**Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, gyda'r genhadaeth i ddatgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a darparu manteision i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.**

### Fel rhan o hyn gwnaethom:

- Gynnal dri digwyddiad gwybodaeth gyhoeddus yn lleol, yng Nghwmaman, Maerdy ac Aberdâr
- Creu model 3D digidol i ddangos i drigolion lleol sut olwg fyddai ar y fferm wynt
- Cynnal tudalen arddangosfa rithwir ar ein gwefan
- Cynhyrchu datganiad i'r cyfryngau a gafodd sylw gan bedwar cyhoeddiad
- Gosod hysbysebion papur newydd mewn tri phapur lleol gwahanol
- Derbyn dros 700 o sylwadau a darnau o adborth gan drigolion lleol
- Anfon gwybodaeth at 98 o grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr gwleidyddol, gan ei gwneud hi'n haws iddyn nhw roi gwybod i'w dilynwyr cyfryngau cymdeithasol am yr ymgynghoriad

Trydan Gwyrdd Cymru

**16,573**
cylchlythyr a anfonwyd i gartrefi a busnesau

**3,500+**
ymweliad â gwefan y prosiect

**3**
digwyddiad galw heibio a gynhaliwyd yn y gymuned

**66**
ffurflen adborth wedi'u dadansoddi

**137**
o bobl wedi mynychu'r digwyddiadau

**10**
ymholiad a ymatebwyd iddynt

# Dywedoch chi

Dylai datblygiadau ynni adnewyddadwy arwain at fanteision lleol go iawn

Roedd yr offeryn modelu 3D yn effeithiol iawn a helpodd ni i weld sut olwg allai fod ar y prosiect.

Mae diogelu bywyd gwyllt, treftadaeth a thirwedd yn wirioneddol bwysig

Hoffem gael gwybod y diweddaraf wrth i'r cynnig ddatblygu.

Rydym am weld swyddi lleol yn cael eu creu a thwf economaidd lleol

Mae newid hinsawdd yn fygythiad gwirioneddol, a gall ynni adnewyddadwy helpu i fynd i'r afael â hyn

**Rydym wedi adolygu a dadansoddi'r holl adborth a dderbyniwyd gennym ar y cynnig yn y cam hwn. Cododd nifer o bynciau'n gyson yn ein sgyrsiau gyda'r gymuned ac yn yr adborth ysgrifenedig a gyflwynwyd.**

## Yr ymgynghoriad a'r wybodaeth

Cafodd yr offer gweledol, yn enwedig y model 3D, eu gwerthfawrogi'n eang ac fe helpodd nhw bobl i ddychmygu'r cynnig. Ar yr un pryd, gofynnodd pobl am fwy o gyfleoedd i drafod pethau, gwybodaeth fanylach a thrafodaeth barhaus wrth i'r cynlluniau ddatblygu.

## Lleoliad a'r ardal gyfagos

Clywsom safbwyntiau cryf am ddiogelu bywyd gwyllt, cyflwr y ddaear, cymeriad y dirwedd a threftadaeth. Siaradodd rhai pobl hefyd am faint o ddatblygiadau sy'n bodoli eisoes yn lleol ac roeddent eisiau sicrwydd y byddai'r ardal yn cael ei hystyried yn ofalus ac yn deg.

## Buddion lleol a biliau ynni

Dywedodd llawer o bobl, os caiff fferm wynt ei hadeiladu gerllaw, y dylai cymunedau lleol weld budd clir ac ystyrlon. Roedd llawer o sylwadau'n canolbwyntio ar gost byw ac a allai'r prosiect helpu i leihau biliau ynni neu ddarparu gwerth uniongyrchol i drigolion.

## Newid hinsawdd a chyflenwad ynni

Roedd llawer o sylwadau'n cydnabod yr angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gwella diogelwch ynni, gydag ynni adnewyddadwy yn cael ei ystyried yn rhan o'r ateb – ar yr amod bod effeithiau lleol yn cael eu hystyried yn briodol.

## Gwneud penderfyniadau

Mae pobl eisiau esboniad cliriach o sut mae'r broses gynllunio'n gweithio, pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol a sut mae'r broses yn parhau i fod yn annibynnol.

## Budd i'r gymuned

Roedd diddordeb yn y ffordd y gallai budd cymunedol weithio'n ymarferol – yn enwedig y dylai fod yn dryloyw, yn hawdd ei gyrchu a darparu gwerth hirdymor i bobl leol.

## Swyddi a'r economi leol

Roedd sylwadau'n gofyn yn rheolaidd am gyfleoedd cyflogaeth lleol, hyfforddiant ac effeithiau economaidd ehangach, ochr yn ochr â chwestiynau am effeithiau posibl ar dwristiaeth, busnesau a'r economi leol.

Bydd yr holl bwyntiau hyn yn parhau i helpu i lunio'r prosiect wrth iddo fynd rhagddo.



**Yn dilyn y rownd gyntaf o ymgynghori cymunedol ddiwedd y llynedd, rydym yn symud i'r cam nesaf o ddatblygu ein cynnig, ac mae eich sylwadau, pryderon a syniadau yn bwydo i'n gweithgareddau.**

**Drwy gydol 2026, byddwn yn cynnal gwaith technegol ac arolygon pellach wrth barhau i ymgysylltu â thrigolion lleol, grwpiau lleol a chynrychiolwyr gwleidyddol.**




## Arolygon a gwaith technegol

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn cynnal arolygon monitro amgylcheddol , sŵn a gwynt parhaus ar draws y safle.

Mae'r astudiaethau hyn yn ein helpu i ddeall amodau lleol yn well a sicrhau bod y dyluniad yn cael ei lywio gan dystiolaeth fanwl.

Byddwn hefyd yn parhau â thrafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyrff perthnasol eraill fel rhan o'r broses asesu.

## Cadw mewn cysylltiad yn lleol

Byddwn yn parhau i dreulio amser yn yr ardal a byddwn yn ceisio mynychu digwyddiadau cymunedol, cwrdd â grwpiau lleol a chynnal sesiwn galw heibio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect fel y gall pobl weld sut mae ein cynlluniau'n datblygu a gofyn cwestiynau.

Mae ein mewnflwch, croeso@trydancarregwen.wales, bob amser ar agor ac ar gael i bobl gysylltu ag ef os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau.

## Sgyrsiau budd cymunedol

Rydyn ni'n gwybod bod budd lleol yn bwnc pwysig. Yn ystod y flwyddyn byddwn yn dechrau trafodaethau mwy manwl yn lleol ynghylch sut y gallai budd cymunedol weithio. Os ydych chi'n rhan o grŵp, clwb neu sefydliad lleol a hoffai siarad â ni am syniadau sydd gennych, **cysylltwch â ni**.

## Paratoi ar gyfer yr ymgynghoriad nesaf

**Bydd yr holl adborth a gwaith arolwg yn bwydo i gynigion wedi'u diweddaru cyn ein hymgynghoriad statudol a gynlluniwyd ar gyfer dechrau 2027.** Bydd hwn yn gyfle ffurfiol i bawb adolygu'r cynlluniau a chyflwyno sylwadau.

Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth ar hyd y ffordd fel y gallwch gael gwybod wrth i'r prosiect ddatblygu.

trydancarregwen.cymru
croeso@trydancarregwen.wales

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**